

YSGOL GYNRADD HAFODWENOG



POLISI RHEOLI MEDDYGINIAETH

1. Darparu Meddyginiaeth

Dylid annog rhieni i ofyn i'w meddyg teulu a ydyw'n bosibl amseru'r dognau o feddyginiaeth i'w cymryd y tu allan i oriau arferol ysgol. Lle bynnag y bo modd, dylai rhieni / warchodwyr disgyblion sydd angen meddyginiaeth yn ystod oriau ysgol, fynychu'r ysgol i ddarparu'r feddyginiaeth i'w plant.

Mae'r pennaeth, gyda chefnogaeth corff llywodraethol yr ysgol, yn cytuno i ddarparu meddyginiaethau yn yr ysgol os ydy'r canllawiau caniatad cywir wedi eu dilyn .

1.1 Mae unrhyw aelod o staff sy'n cytuno i ddarparu meddyginiaeth i ddisgyblion yn gwneud hynny ar sail wirfoddol. Ond awgrymir yn gryf na ddylent wneud hynny cyn cael hyfforddiant perthnasol.

1.2 Rhaid i staff sy'n gwirfoddoli i ddarparu meddyginiaeth, dderbyn yr hyfforddiant cywir cyn cael caniatâd i roi meddyginiaeth i unrhyw ddisgybl.

1.3 Rhaid i ysgol dderbyn ffurflen/llythyr wedi ei chwblhau gan rieni/warchodwyr disgyblion yn gofyn i'r ysgol ddarparu'r feddyginiaeth yn ystod oriau'r ysgol. (Atodwyd)

1.4 Mae'n angenrheidiol i'r pennaeth/person mewn gofal, gytuno'n ffurfiol â'r cais cyn y rhoddir unrhyw feddyginiaeth.

1.5 Os yw'r disgybl yn gwrthod cymryd ei feddyginiaeth, ni ddylid ei orfodi i wneud hynny. Rhaid hysbysu'r rhieni os yw disgybl yn gwrthod cymryd meddyginiaeth.

Os yw disgybl yn gwrthod meddyginiaeth mewn sefyllfa o argyfwng (e.e. pigiad adrenalin mewn achos o anaffylacsis), rhaid cael cymorth meddygol proffesiynol a hysbysu'r rhieni yn syth.

1.6 Dylai staff wneud eu gorau i sicrhau y caiff preifatrwydd a balchder y disgybl eu hamddiffyn, hyd yn oed mewn sefyllfa o argyfwng.

1.7 Os oes angen triniaeth bersonol neu ymyrgar ar ddisgybl, dylai dau aelod o staff fod yn bresennol; ceisir i un fod o'r unrhyw â'r disgybl.

2. Cadw Meddyginiaeth

2.1 Ni fydd yr ysgol yn derbyn unrhyw feddyginiaeth nad yw yn ei gynhwysydd gwreiddiol.

2.2 Rhaid labelu pob meddyginiaeth yn eglur gydag enw a dosbarth y disgybl.

2.3 Heb law am anadlwyr asthma, meddyginiaethau sy'n rhaid eu cadw yn yr oergell, a meddyginiaethau a all fod yn angenrheidiol mewn argyfwng, rhaid cadw pob meddyginiaeth arall mewn ardal allan o gyrraedd disgyblion.

2.4 Rhaid storio unrhyw feddyginiaeth sydd angen ei chadw yn yr oergell yn ystafell yr athrawon.

2.5 Caniateir i ddisgyblion y credir eu bod yn ddigon aeddfed i gymryd cyfrifoldeb am eu hanadlwr asthma ei gario gyda hwy cyn belled â bod cais ffurfiol wedi ei wneud gan y rhiant, er byddain well gan yr Ysgol fod un ar gael yn y cwpwrdd Cymorth Cyntaf gydag enw'r plentyn wedi labelu yn glir.

2.6 Yn ystod gweithgareddau oddi ar y safle, dylid cario unrhyw feddyginiaeth angenrheidiol gan yr aelod o staff sy'n gyfrifol am y weithgaredd neu aelod o staff gyda hyfforddiant cymorth cyntaf. Dylai disgyblion all fod angen eu meddyginiaeth ar frys fod mewn grwp sy'n cael ei oruchwylio gan yr aelod o staff sy'n cario'r feddyginiaeth. Dylai disgyblion yr ystyrir eu bod yn ddigon cyfrifol i gymryd cyfrifoldeb am eu meddyginiaeth asthma gael caniatâd i'w chario gyda hwy cyn belled â bod cais ffurfiol wedi ei wneud gan y rhiant.

2.7 Ni ddylai staff fyth drosglwyddo meddyginiaeth o'i gynhwysydd gwreiddiol i gynhwysydd arall oni bai bod y cynhwysydd gwreiddiol wedi malu. Mewn achos o'r fath, dylid labelu'r cynhwysydd newydd yn eglur gyda'r holl wybodaeth a gaed ar label y cynhwysydd gwreiddiol. Rhaid hysbysu'r rhiant o unrhyw ddifrod i gynhwysyddion.

2.8 Ni ddylai staff yr ysgol waredu unrhyw feddyginiaeth sydd heb ei defnyddio. Dyma gyfrifoldeb y rhiant. Rhaid i'r rhiant gasglu unrhyw feddyginiaeth sydd heb ei defnyddio ar ddiwedd pob hanner tymor. Os yw meddyginiaeth disgybl yn gorffen neu ei dyddiad yn terfynu, cyfrifoldeb y rhieni yw ei hailgyflenwi.

Mae yna becynnau Cymorth Cyntaf yn yr ysgol ac mae nifer o aelodau'r staff wedi eu hyfforddi i ddelio gyda materion cymorth cyntaf yn y gweithle.

Ni fyddwn fel staff yn darparu moddion heb ganiatad. Ni fyddwn yn darparu plasters ar y plentyn. Mewn sefyllfa o'r fath bydd yr athrawon/pennaeth yn defnyddio eu barn broffesiynol er mwyn gwneud y plentyn mor gyffyrddus a diogel a phosib.

Mewn achos o ddamwain /salwch yn yr ysgol byddwn yn cysylltu â'r rhieni drwy alwad ffôn a drwy lenwi'r llyfr damweiniau gan roi slip ym mag y plentyn.

Os fydd y plentyn yn anafu ei ben bydd aelod o staff yn cysylltu gyda'r rhieni yn syth.

Derbyniwyd y Polisi hwn gan Gorff Llywodraethol yr Ysgol 2021.

Crynodeb

- NID OES RHEIDRWYDD CYFREITHIOL NA CHYTUNDEBOL AR STAFF I ROI MEDDYGINIAETH I DDISGYBLION.
- Lle bynnag y bo modd, dylid gofyn i'r rheini / warchodwyr fynychu'r ysgol i roddi meddyginiaeth i'w plant eu hunain.
- Rhaid i rieni wneud cais ffurfiol i'r ysgol am i'r pennaeth / aelod o staff I roddi meddyginiaeth i'w plant (ffurflen meddyginiaeth).
- Wrth roi meddyginiaeth i ddisgybl, rhaid i staff wirio: enw'r disgybl, dogn, amllder y dogn, dyddiad terfynu'r feddyginiaeth ac unrhyw gyfarwyddiadau a ddarparwyd gan y meddyg teulu neu'r rhiant.

- Mae polisi'r ysgol yn disgwyl i bob meddyginiaeth asthma fod yn y cwpwrdd Cymorth Cyntaf, ond dylai rhieni / warchodwyr sy'n dymuno i'w plant gario ei meddyginiaeth asthma ei hun wneud cais ffurfiol i'r ysgol.
- PARASETAMOL: Mae disgyblion weithiau'n gofyn am boenladdwyr ond ni ddylai staff ysgol roi meddyginiaeth yma i ddisgyblion. Ni ddylid rhoi unrhyw ffurf ar barasetamol i ddisgyblion ysgol gynradd.
- Cyfrifoldeb y rhiant / warchodwr ydy cludo y moddion i'r ysgol a dod i'w nôl ar ddiwedd y dydd.

Ionawr 2021
I'w ddiweddarau 2022